**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad dyddiedig 10 Tachwedd 2020 ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020, a ddrafftiwyd yn eithriadol o gyflym ac a wnaed am 3.33 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

**Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 3 a 4: Camgymeriadau drafftio**

Mae’r adroddiad drafft yn tynnu sylw at gamgymeriadau drafftio yn y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 3”) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 4”). Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i’r Pwyllgor am ei hysbysu am y materion hyn.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 er mwyn cywiro’r camgymeriadau hyn. Gwnaed y Rheoliadau hynny ac fe’u gosodwyd gerbron y Senedd ar 13 Tachwedd 2020.

O ran pwynt 4 (anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg), bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi, wrth gwrs, bod statws cyfartal i’r ddau destun ac nad “cyfieithiad” o’r testun Saesneg yw’r testun Cymraeg.

Daeth Rheoliadau Rhif 3 i ben ddiwedd y dydd ar 8 Tachwedd 2020. Nid oedd angen cywiro’r materion a nodwyd yn yr adroddiad drafft o ran cyfeirio at y pwerau ac un o’r troednodiadau yn y Rheoliadau hyn, gan nad oedd iddynt unrhyw effaith o sylwedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i dawelu meddwl y Pwyllgor bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cysylltu â’r holl bersonau y mae’r gofynion ynysu mwy caeth a osodir gan y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt. O ganlyniad, ni fu unrhyw angen i ddefnyddio’r pwerau gorfodi na’r darpariaethau troseddu yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol nac yn Rheoliadau Rhif 4 cyn cywiro’r darpariaethau hynny.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Ymyrryd â hawliau unigolion**

Mae’r adroddiad drafft yn nodi’r cynnydd o ran ymyrryd â hawliau’r unigolion hynny sy’n cyrraedd Cymru ar ôl bod yn Nenmarc yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol, sy’n deillio o’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu’r amgylchiadau eithriadol a arweiniodd at wneud y Rheoliadau hyn. Mae’r risgiau i iechyd a gyflwynir gan y posibilrwydd o fewnforio straen newydd o’r coronafeirws i Gymru mor ddifrifol, ym marn Llywodraeth Cymru, fel bod y cynnydd o ran ymyrryd â hawliau carfan fach iawn o unigolion yn gymesur â’r nod dilys o ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.